Eich Taith Hawliau

Tasg Arbennig Gwanwyn 2022

CA2

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

Eich Taith Hawliau

Dyma fydd Tasg Arbennig olaf Sally, felly roedden ni'n meddwl y byddai'n braf i chi weithio gyda'ch athro a meddwl am daith hawliau eich ysgol.

Bydd gan rai ysgolion daith hawliau hir, a bydd ysgolion eraill yn cychwyn ar eu taith.

Rydyn ni wedi creu cynllun i chi ei ddefnyddio. Os yw hawliau'n newydd i chi, rydyn ni wedi ychwanegu rhai syniadau eraill, sydd i'w gweld wrth y symbol *.

Cyn i chi ddechrau mapio eich taith, gwyliwch y fideo yma gan ein tîm Cyfranogiad. Yn y fideo maen nhw'n rhannu ein taith hawliau ni, ac fe allai eich helpu i feddwl am batrwm eich map ffordd chi.

Ar ôl i chi orffen eich map gallwch ei rannu gyda ni ar Twitter trwy drydar am @complantcymru neu drwy anfon e-bost i post@complantcymru.org.uk

Cynllun ar gyfer eich Taith Hawliau

1. Tynnwch lun o'ch map ffordd. Ar ddechrau'r ffordd rhowch y flwyddyn pryd dechreuoch chi ddysgu am hawliau, ac ar ddiwedd y ffordd rhowch y flwyddyn 2022.

2. Edrychwch ar ein rhestr o Dasgau Arbennig ac ychwanegwch y rhai mae eich ysgol wedi'u gwneud at eich map ffordd.

   *os ydych chi heb wneud Tasg Arbennig eto, gallech chi ddewis un hoffech chi roi cynnig arni yn y dyfodol a'i hychwanegu at eich ffordd.

3. Meddyliwch am eich hoff Dasg Arbennig a'i hychwanegu at eich map. Gofalwch eich bod yn esbonio pam roedd hon yn ffefryn i chi.

4. Nesaf, tynnwch lun "Gorsaf y Dychymyg" ac ysgrifennu'r peth mwyaf creadigol rydych chi wedi'i wneud i ddysgu am hawliau. Gallai hynny olygu arddangosfa lunioch chi; gêm gwnaethoch chi greu, neu gân rydych chi'n canu.

   *os ydych chi heb ddechrau dysgu am hawliau eto, gallech chi feddwl am rywbeth byddech chi'n hoffi ei greu i bawb yn eich ysgol.

5. Meddyliwch am eich "Tair Seren a Dymuniad", sef tri pheth rydych chi'n meddwl eich bod chi'n eu gwneud yn dda ac un peth hoffech chi wneud nesaf i ddysgu am hawliau plant yn eich ysgol.

6. Rhannwch eich taith gyda ni. Gallwch chi wneud hynny trwy drydar @complantcymru neu e-bostio post@complantcymru.org.uk

Tasgau Arbennig – *Dyma restr o'r holl Dasgau Arbennig ers i Sally ddod yn Gomisiynydd Plant Cymru.*

Blwyddyn	Tymor	Tasg
2015	Hydref	Beth Nesa/What Next – arolwg cyntaf Sally (Fe ddwedsoch chi wrthyn ni am eich blaenoriaethau i Sally)
2016	Gwanwyn	Adborth o Beth Nesa/What next – arolwg cyntaf Sally
2016	Haf	Adborth ar ein gwefan
2016	Hydref	Stori Sam (dewis o weithgareddau creadigol)
2017	Gwanwyn	Ein Hawliau
2017	Haf	Gwerthuso'r Cynllun Llysgenhadon
2017	Hydref	Stori Sam (cynlluniau gwersi)
2018	Gwanwyn	Gwaith Pontio'r Cenedlaethau
2018	Haf	Archwiliad Hawliau
2018	Hydref	Beth Nawr – ail arolwg Sally
2019	Gwanwyn	Seiberfwlio
2019	Haf	Archwiliad Hawliau
2019	Hydref	Prosiect Gwyrdd-droi
2020	Gwanwyn	Gwneud Gwahaniaeth
2020	Haf	Arolwg Coronafeirws a Fi
2020	Hydref	Dyma Fi
2021	Gwanwyn	Prosiect Pleidlais
2021	Haf	Haf o Hwyl
2021	Hydref	Llesiant yn eich ysgol
2022	Gwanwyn	Taith Eich Hawliau